# Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-32-2006):

### Dyddiad y Cyfarfod: 28 Tachwedd 2006
### Amser y Cyfarfod: 9:30 a.m.
### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd

### Aelodau’r Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Hasera Khan | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Brynle Williams, Janice Gregory, Christine Gwyther

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-31-2006

2.1. Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2006.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Sylwodd y Cadeirydd bod Aelod o'r Pwyllgor Deddfau, Janice Gregory yn sâl. Roedd y Pwyllgor yn anfon eu dymuniadau gorau ati.

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

4.1. LC1394 – Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) 2006

Cyflwynodd Mr Griffiths yr adroddiadau i'r Pwyllgor. Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y ffaith bod y rheoliadau hyn wedi'u gwneud gan ddefnyddio gweithdrefn weithredol rannol, hynny yw wedi eu cymeradwyo gan y Cyfarfod Llawn ond heb gael eu cyfeirio at y Pwyllgor Deddfau'n gyntaf. O ganlyniad i hyn nid oedd cyfle i ddefnyddio Memorandwm Cywiriadau. Felly mae mân wallau wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Gofynnodd Aelodau am eglurhad o'r weithdrefn weithredol rannol. Eglurodd y Cynghorydd Cyfreithiol nad yw deddfwriaeth a wnaed gan ddefnyddio'r weithdrefn weithredol lawn yn mynd i'r Pwyllgor Busnes, y Pwyllgor Deddfau nac i'r Cyfarfod Llawn, o dan Reolau Sefydlog. Fodd bynnag, er mwyn caniatáu i Aelodau ystyried deddfwriaeth frys, mae weithiau'n mynd yn uniongyrchol i'r cyfarfod llawn heb i bwyllgorau blaenorol ei ystyried, gan ddatgymhwyso felly dim ond rhannau o'r weithdrefn ddeddfwriaethol safonol. Gall hyn ddigwydd ym mis Mawrth fel y bydd amser yn prinhau cyn toriad y Pasg a'r etholiadau dilynol.

Eglurodd y Cynghorydd Cyfreithiol nad oedd gwall yn y pwynt cyntaf a nodwyd i fod yn destun adroddiad yn yr adroddiad drafft pan wnaed y Rheoliadau, ond roedd yn anghywir erbyn hyn o ganlyniad i ddeddfwriaeth ddilynol. Cytunodd yr Aelodau y dylid newid yr adroddiad i gyfeirio ato mewn sylw, fel mater sydd angen ei gywiro yn y dyfodol yn hytrach na fel gwall yn y Rheoliadau hyn, ac y dylai'r adroddiad, fel arall, gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.2. LC1402 – Rheoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) (Rhif 2) 2006

Cyfeiriodd y Cynghorydd Cyfreithiol at y mân wall teipograffyddol y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad drafft, a dywedodd ei fod wedi derbyn dadleuon gan gyfreithwyr y Llywodraeth bod hwn yn wall digon mân i gael ei gywiro wrth ei gyhoeddi, yn arbennig gan fod y testun Saesneg yn gywir a bod yr un cyfeiriad wedi ei wneud yn gywir yn y ddwy iaith mewn paragraff cynharach. Cytunodd y Pwyllgor y gellir ymdrin â'r mater hwn felly gyda sylw yn hytrach na fel pwynt i fod yn destun

adroddiad ffurfiol o dan Reol Sefydlog 11.7. Cytunodd y Pwyllgor y dylid gwneud yr adroddiad, fel arall, ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.3. LC1405 – Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2006

Cyflwynodd Ms Jackson yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor. Tynnodd sylw'r Aelodau at y 3ydd paragraff o dan Reol Sefydlog 11.7. Yr oedd wedi ail edrych ar y testun Cymraeg ac roedd nawr yn fodlon fel y gellid ei ddileu o'r adroddiad. Cytunodd yr Aelodau ac y dylai'r adroddiad, fel arall, gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.4. Mewn perthynas â'r Offerynnau Statudol canlynol cytunodd yr Aelodau y dylid gwneud yr adroddiadau ar ffurf y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

LC1403 - The Avian Influenza and Influenza of Avian Origin in Mammals (Wales)

(No 2) Order 2006

LC1406 – Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoleiddiol a Chwynion) (Cymru) 2006

LC1407 – Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 9 ac Arbediad) (Cymru) 2006

## Camau i'w cymryd

Nid oedd unrhyw bwyntiau gweithredu.

## Eitem 5: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

5.1. Cyhoeddodd y Cadeirydd bod copi papur o'r Adroddiad Blynyddol yn awr ar gael. Yr oedd yn ddogfen raenus, ac i'r rhai hynny sydd â diddordeb yng ngwaith deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, mae'n rhoi hanes defnyddiol am weithgareddau'r flwyddyn.

5.2. Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 5 Rhagfyr 2006.